@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

**Barbeciw y G.Rh.A**

Mae'r poster hwn eisoes wedi ei rannu gyda chi drwy e-bost i'ch hysbysu o'r digwyddiad ar ddiwedd y tymor.

Sylwch fod y noson ychydig yn wahanol i'r arfer gyda pherfformiadau gan y plant yn digwydd yn ystod y noson (rydym yn treialu plethu'r Ŵyl Haf a barbeciw yn un)

Mae mynediad i'r noson yn rhad ac am ddim, ond <u>bydd angen eich bod wedi archebu tocyn bwyd ymlaen llaw</u> er mwyn medru bwyta o'r barbeciw.

Mae'r ffurflen archebu'r bwyd barbeciw arlein
[www.ticketsource.co.uk/ysgol-gymraeg-aberystwyth](www.ticketsource.co.uk/ysgol-gymraeg-aberystwyth)
ac ar gael tan ddydd Llun y 15fed felly cofiwch archebu rhag cael eich siomi.

Dyma'r drefn perfformio ar y noson. Byddwn yn rhannu mwy o fanylion gyda chi yn nes at y noson o safbwynt ble i fynd â'ch plant wrth gyrraedd ac ati.

Edrychwn ymlaen at dreulio noson olaf-ond-un y flwyddyn ysgol yn eich cwmni.




Rhagolygon y tywydd ar gyfer y noson :




**Y Gymraeg**

Cwmni Theatr Arad Goch
www.aradgoch.cymru
01970 617998

<u>**Diwrnodau CreAdiGol - 30/07/24 - 02/08/24 Blwyddyn 2-6**</u>
"Fe fydd 4 diwrnod o ddigwyddiadau creadigol amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn Arad Goch i ddisgyblion Blynyddoedd 2-6 yn ystod gwyliau'r Haf. Eleni, rydym yn gynhyrfus i gyhoeddi byddwn yn cyd-weithio gyda Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth gyda nifer o'r digwyddiadau a gweithdai amrywiol ar thema *Charlie and the Chocolate Factory!* Y pris yw £100 y plentyn neu £90 os yn cofrestru brodyr a chwiorydd. E-bostiwch [anne@aradgoch.org](mailto:anne@aradgoch.org) am ffurflen gofrestru.







**Gwibdeithiau'r Haf**
Mae'r gwibdeithiau yn digwydd yn ystod y bythefnos olaf yma. Byddwch yn derbyn gwybodaeth amdanynt yn uniongyrchol drwy e-bost, gyda chyfeiriad at ParentPay ynglŷn â chyfraniadau at gost y teithiau gwahanol.

**Clwb ar ôl Ysgol**
Sylwch does dim Clwb ar ôl Ysgol ar ddydd Gwener y 12fed na 19eg o Orffennaf.
Gofynnwn yn garedig fod unrhyw ddyledion i'r Clwb yn cael eu talu erbyn diwedd y tymor os gwelwch yn dda.

**Calendr Hanner Tymor**
Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

**Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf**
Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ar ddydd Gwener y 19eg o Orffennaf.
Bydd y flwyddyn ysgol newydd yn cychwyn ar ddydd Mercher y $4^{ydd}$ o Fedi i blant (bydd hyfforddiant staff ar yr $2^{ail}$ a $3^{ydd}$).

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**07/07/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

***PTA Barbeque***

*This poster has already been shared with you by e-mail informing you of the event at the end of term.*

*Note that the event is a little different from usual with performances by the children taking place during the evening (we are trialling uniting the Summer Festival and Barbecue as one event)*

*Entry to the evening is free, but you will need to have ordered a meal ticket beforehand in order to be able to eat from the barbecue.*

*To order the barbecue food please go online.*
*[www.ticketsource.co.uk/ysgol-gymraeg-aberystwyth](http://www.ticketsource.co.uk/ysgol-gymraeg-aberystwyth)*
*which is available to order until Monday the 15th so please remember to avoid disappointment.*

*This is the order of performances on the night. I will share more details with you closer to the evening in terms of where to take your children on arrival etc.*

*We look forward to spending the penultimate evening of the school year in your company.*




*Long range weather forecast :*




**Y Gymraeg – *The Welsh Language***

Cwmni Theatr Arad Goch
www.aradgoch.cymru
01970 617998

**CreAdiGol Days - 30/07/24 - 02/08/24 Years 2-6**

*There will be 4 days of varied creative activities in Welsh at Arad Goch for Years 2-6 during the summer holidays. This year, we are excited to announce that we will be working together with Aberystwyth Arts Centre on several workshops and events, based on the theme of Charlie and the Chocolate Factory! The price is £100 per child or £90 per child for siblings attending. Contact [anne@aradgoch.org](mailto:anne@aradgoch.org) for a registration form."*







### *Summer Trips*

*The summer trips are taking place during these last two weeks. You will receive information regarding each year group trip directly by e-mail, with a reference to ParentPay regarding contributions towards the cost of the various trips.*

### *After School Club*

*Please note there is no After School Club on Friday 12th or 19th July.*
*We kindly ask that any debts to the Club are paid by the end of the term please.*

### *Half Term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for **this half term**. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

### *Important dates for next half term*

*The school will close for the summer holidays on Friday the 19th of July.*
*The new school year will start on Wednesday the 4th of September for children (staff training will be on the 2nd and 3rd).*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***07/07/2024***
www.ysgolgymraeg.cymru